Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Parc Acton
# Lôn y Bwth
# Wrecsam
# LL12 8BT

## Dyddiad yr arolygiad: Mai 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 12/07/2017**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Parc Acton yn nhref Wrecsam. Mae 469 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 49 o ddisgyblion sy'n mynychu meithrinfa'r ysgol yn rhan-amser.

Mae 15 o ddosbarthiadau. Mae'r ysgol yn cynnal dau ddosbarth darpariaeth adnoddau hefyd, a ariennir gan yr awdurdod lleol, ar gyfer disgyblion ag anawsterau lleferydd ac iaith.

Mae tua 18% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd oddeutu'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r ysgol yn nodi bod anghenion dysgu ychwanegol gan ryw 15% o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai yn y ddarpariaeth adnoddau. Mae hyn islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae datganiad o anghenion addysgol arbennig gan ychydig iawn o ddisgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o ethnigrwydd gwyn Prydeinig ac yn dod o gartrefi lle siaredir Saesneg fel y brif iaith. Nid yw unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref.

Ymgymerodd y pennaeth â'i swydd yn Ionawr 2017. Ym Mawrth 2011 yr arolygodd Estyn yr ysgol ddiwethaf.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Parc Acton yn 2016-2017 yw £3,570. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yn Wrecsam yw £8,755 a'r lleiafswm yw £2,924. Mae Ysgol Gynradd Parc Acton yn yr 22ain safle o'r 58 ysgol gynradd yn Wrecsam o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Digonol |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd boddhaol wrth ddatblygu'u medrau wrth iddynt symud drwy'r ysgol
- medrau darllen effeithiol gan y rhan fwyaf o ddisgyblion
- medrau rhifedd cadarn a dealltwriaeth dda o gysyniadau mathemategol gan y rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2
- rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu ystod dda o fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)
- cyfraddau presenoldeb yn uchel
- safonau ymddygiad yn gyson dda
- pob un o'r disgyblion, mewn ychydig o wersi, yn dangos diddordeb ac yn gwneud cynnydd da
- yr ysgol yn darparu'n dda ar gyfer datblygu iechyd a lles disgyblion

Fodd bynnag:

- nid yw ysgrifennu llawer o ddisgyblion wedi'i ddatblygu'n ddigonol, yn enwedig eu gallu i ysgrifennu'n greadigol a chan ddefnyddio dychymyg
- nid yw rhan fwyaf y disgyblion yn cyflawni ar lefel ddigon uchel mewn datblygiad mathemategol erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen
- nid yw'r gallu gan lawer o ddisgyblion i weithio'n annibynnol ac i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu
- nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm
- nid yw gwersi bob amser yn ennyn diddordeb dysgwyr ac yn eu herio i lwyddo ar lefel briodol
- nid yw athrawon yn defnyddio gwybodaeth asesu yn ddigon da i lywio'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol yn seiliedig ar godi safonau gan y pennaeth sydd newydd ei phenodi
- y pennaeth yn dechrau rhoi ffocws newydd i flaenoriaethau uwch arweinwyr er mwyn sicrhau bod cyfeiriad strategol clir ar gyfer yr ysgol
- y broses rheoli perfformiad ar gyfer pob aelod o staff wedi'i sefydlu'n dda
- llywodraethwyr yn gefnogol o'r ysgol a bod dealltwriaeth dda ganddynt o sut

mae'r ysgol yn perfformio o gymharu ag ysgolion tebyg
- ystod dda o bartneriaethau sy'n cael effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgu a lles disgyblion
- digon o staff tra chymwys a phrofiadol gan yr ysgol i gyflwyno'r cwricwlwm

Fodd bynnag:

- mae diffyg cyfeiriad strategol i sicrhau dull cyson a chydlynus o wella'r ysgol
- mae nifer sylweddol o newidiadau i strwythur staffio'r ysgol wedi amharu ar yr arweinyddiaeth ac wedi effeithio'n niweidiol ar ei chynnydd
- nid yw cyfrifoldebau arwain yn effeithiol o ran cefnogi gwelliant yr ysgol
- nid yw gweithgareddau hunanarfarnu a monitro yn gadarn ac nid ydynt yn cysylltu â blaenoriaethau gwella'r ysgol yn ddigon manwl
- nid yw uwch arweinwyr yn arfarnu effaith camau gweithredu'r ysgol ar ddeilliannau disgyblion yn ddigonol

## Argymhellion

A1 Codi safonau ysgrifennu disgyblion ar draws yr ysgol ac mewn datblygiad mathemategol yn y Cyfnod Sylfaen

A2 Gwella gallu disgyblion i weithio'n annibynnol, i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu ac i ddatblygu'u meddwl

A3 Darparu cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm

A4 Sicrhau bod yr holl wersi yn symud ymlaen yn bwrpasol a'u bod yn herio disgyblion i lwyddo ar lefel fuddiol

A5 Sicrhau bod athrawon yn asesu cynnydd disgyblion yn gywir ac yn defnyddio'r wybodaeth i lywio'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion

A6 Gwella'r arweinyddiaeth strategol ar bob lefel er mwyn sicrhau deilliannau gwell ar gyfer disgyblion

A7 Sicrhau bod gweithgareddau gwella'r ysgol yn cysylltu'n glir â deilliannau prosesau hunanarfarnu a monitro cadarn

A8 Lleihau tanwariant cyllideb yr ysgol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn fod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol ryw 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae disgyblion yn cychwyn yn yr ysgol gyda lefelau medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n gyson â'r lefelau a ddisgwylir am eu hoedran. Gwneir cynnydd boddhaol gan y rhan fwyaf o ddisgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd addas dros gyfnod.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu medrau llafaredd priodol. Maent yn gwrando'n dda ar gyfarwyddiadau oedolion ac mae llawer ohonynt yn ateb cwestiynau fel rhan o ddosbarth cyfan neu waith grŵp yn frwdfrydig. Mae llawer ohonynt yn rhannu'u meddyliau, eu syniadau a'u barnau yn ystyriol gyda'u cyfoedion, pan gânt y cyfle.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu medrau darllen effeithiol yn unol â'r rheiny a ddisgwylir am eu hoedran a'u gallu. Defnyddiant eu gwybodaeth am seiniau llythrennau yn dda i ddatgodio geiriau ac i seinio rhai anghyfarwydd. Maent yn darparu crynodebau cywir o'r hyn maent wedi'i ddarllen, ac yn gwneud rhagfynegiadau defnyddiol ynglŷn â beth allai ddigwydd nesaf yn eu stori. Fodd bynnag, dim ond ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dangos brwdfrydedd gwirioneddol ynglŷn â llyfrau a darllen. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen gyda hyder, brwdfrydedd a mynegiant. Mae llawer yn datblygu medrau darllen effeithiol ar lefel uwch, fel y gallu i fwrw golwg ar destun am wybodaeth benodol ac i gasglu ystyr o ymddygiad cymeriad mewn stori. Maent yn mwynhau darllen amrywiaeth o lyfrau o gartref a'r ysgol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu i safon sy'n addas i'w hoedran a'u gallu. Yn gyffredinol, mae eu gwaith wedi'i gyflwyno'n dda ac maent yn ffurfio llythrennau yn gywir a chyson. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn sillafu geiriau cyffredin syml yn gywir ac yn defnyddio'u gwybodaeth am seiniau llythrennau yn briodol i roi cynnig ar eiriau sy'n fwy cymhleth. Fodd bynnag, nid oes dealltwriaeth ddigonol o hanfodion cystrawen gan leiafrif o ddisgyblion ac nid ydynt yn defnyddio priflythrennau ac atalnodau llawn yn rheolaidd i ddiffinio brawddegau a threfnu'u gwaith. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos gwybodaeth gadarn am y mathau gwahanol o ysgrifennu ffeithiol, er enghraifft wrth ddisgrifio proses y cylch dŵr. Fodd bynnag, nid ydynt yn ysgrifennu'n estynedig, yn greadigol na gyda geirfa ddigon eang a dychmygus.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn parhau i wneud cynnydd addas wrth ddatblygu'u medrau ysgrifennu. Mae llawer yn datblygu strategaethau sillafu effeithiol ac yn defnyddio atalnodi sylfaenol yn dda i drefnu'u gwaith. Maent yn ysgrifennu'n briodol mewn ystod gyfyngedig o ffurfiau. Er enghraifft, maent yn creu adroddiadau diddorol ar fywyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd ac yn ysgrifennu llythyrau darbwyllol i fynnu gweithredu i atal llifogydd. Ychydig o ddisgyblion sy'n dangos dealltwriaeth dda o nodweddion ysgrifennu ffuglen, fodd

bynnag, fel storïau, cerddi a sgriptiau drama. Nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn cymhwyso'u medrau ysgrifennu ar yr un lefel mewn pynciau ar draws y cwricwlwm ag y gwnânt yn eu gwersi llythrennedd.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae gwybodaeth addas gan lawer o ddisgyblion am ystod o ffeithiau rhif y maent yn eu cymhwyso'n fedrus i ddatrys cyfrifiadau. Er enghraifft, maent yn adio a thynnu rhifau hyd at 100 gan ddefnyddio ystod o ddulliau ffurfiol ac anffurfiol. Nid yw eu gallu i ddatrys problemau lluosi a rhannu syml wedi datblygu gystal. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth fuddiol o ystod o gysyniadau a medrau mathemategol, gan gynnwys amser, mesur a ffurf. Er enghraifft, maent yn adnabod siapiau dau ddimensiwn syml, ac yn dweud faint yw hi o'r gloch i'r hanner awr agosaf. Mewn ychydig o achosion, mae disgyblion yn trin data yn gadarn i greu pictogramau syml, siartiau cyfrif a graffiau bloc. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cyflawni ar lefel ddigon uchel erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, ac nid ydynt yn cymhwyso'u gwybodaeth yn dda i ddatrys problemau mewn cyd-destunau go iawn.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau rhifedd trylwyr a dealltwriaeth dda o ystod eang o gysyniadau mathemategol. Maent yn defnyddio'u gwybodaeth am werth lle yn effeithiol, er enghraifft pan fyddant yn lluosi cyfanrifau a degolion â 10. Ym Mlwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cofio tablau lluosi yn dda ac yn sydyn. Maent yn ymchwilio i batrymau rhif yn effeithiol a gyda brwdfrydedd, fel pan fyddant yn archwilio dilyniant Fibonacci a'i ymddangosiad mewn natur a chelf. Maent yn dehongli ac yn cyflwyno data yn dda mewn ystod o ffurfiau, gan gynnwys mewn siartiau cylch a graffiau llinell. Ar draws yr ysgol, fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u rhifedd ar yr un lefel mewn pynciau eraill ag y gwnânt mewn gwersi mathemateg.

Mae defnydd y rhan fwyaf o ddisgyblion o'r Gymraeg yn datblygu'n briodol ar draws yr ysgol. Maent yn defnyddio cyfarchion syml ac yn disgrifio'r tywydd yn hyderus. Defnyddiant batrymau iaith penodol yn effeithiol i ryngweithio â'i gilydd ac i chwarae gemau yn yr ystafell ddosbarth. Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen ar lefel briodol i'w hoedran a'u gallu. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen testunau wedi'u paratoi yn gywir gan mwyaf, a gyda dealltwriaeth addas. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ysgrifennu i safon dda, gyda chymorth. Er enghraifft, mae disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn ysgrifennu disgrifiadau diddorol ohonyn nhw eu hunain, y pethau maent yn eu hoffi a'r pethau nad ydynt yn eu hoffi. Ym Mlwyddyn 6, maent yn dewis yr amser cywir y ferf i greu gwahoddiad i barti.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ystod dda o fedrau TGCh mewn gwersi dynodedig ac yn cymhwyso'r rhain yn dda mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 2 yn defnyddio rhaglen cyhoeddi bwrdd gwaith yn dda i greu posteri am fasnach deg. Ym Mlwyddyn 4, maent yn defnyddio taenlen i greu graffiau i ddangos data y maent wedi'i gasglu am hoff fariau siocled y dosbarth. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn adeiladu'n dda ar waith gyda theganau rhaglenadwy y maent wedi'i wneud mewn blynyddoedd blaenorol i ddatblygu medrau codio pwrpasol. Er enghraifft, mae disgyblion yn cymhwyso medrau meddwl rhesymegol wrth ysgrifennu rhaglen syml i greu a rheoli symudiadau gwrthrych ar sgrin. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn defnyddio'r rhyngrwyd yn llwyddiannus i gefnogi'u hastudiaethau. Mae dealltwriaeth dda gan bron pob disgybl o sut i gadw'n ddiogel ar-lein.

Mae'r data cyhoeddedig ar gyfer asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn cynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn y ddau ddosbarth darpariaeth adnoddau yn yr ysgol. Mae hyn yn effeithio ar berfformiad cyffredinol disgyblion o gymharu â pherfformiad disgyblion mewn ysgolion eraill â chyfrannau tebyg o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad disgyblion mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol o ran y deilliant disgwyliedig a'r deilliant uwch wedi gosod yr ysgol yn y 50% is yn bennaf o gymharu ag ysgolion tebyg dros y pedair blynedd diwethaf.

Mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig a'r lefel uwch mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 wedi gosod yr ysgol yn y 50% is yn bennaf o gymharu ag ysgolion tebyg dros y pedair blynedd diwethaf.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2, mae perfformiad merched mewn datblygiad mathemategol a llythrennedd wedi tueddu bod ymhell uwchlaw perfformiad bechgyn o ran y deilliant disgwyliedig a'r deilliant uwch dros y pedair blynedd diwethaf. Yn yr un modd, mae perfformiad merched mewn gwyddoniaeth wedi tueddu bod ymhell uwchlaw perfformiad bechgyn ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

Y duedd dros y pedair blynedd diwethaf yw bod disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim heb gyflawni cystal â disgyblion eraill.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel a bod gofal da iddynt yn yr ysgol, ac maent yn gwybod ble i droi os ydynt yn poeni neu'n pryderu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos gwerthfawrogiad a dealltwriaeth dda o bwysigrwydd mabwysiadu ffordd iach o fyw, er enghraifft drwy gymryd rhan weithgar mewn ystod o weithgareddau corfforol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn mwynhau'r ysgol ac yn ymddwyn yn dda. Mae bron pob un ohonynt yn gwrtais, yn garedig ac yn foesgar. Dangosant barch, gofal a chonsyrn at bobl eraill. Mae ganddynt agwedd gadarnhaol at ddysgu, ac mewn llawer o achosion maent yn canolbwyntio'n dda ac yn mwynhau eu gwersi. Fodd bynnag, o ganlyniad i or-gyfarwyddo gan oedolion, nid oes medrau digonol ganddynt bob amser i wella a chynllunio eu dysgu eu hunain, i ddatrys problemau nac i ddatblygu eu meddwl eu hunain.

Mae bron yr holl ddisgyblion yn teimlo bod oedolion yn gwrando arnynt ac yn gwerthfawrogi eu barnau. Mae'r disgyblion yn y grŵp arweinyddiaeth a'r cyngor ysgol yn dechrau chwarae rhan fwy gweithgar wrth wneud penderfyniadau. Caiff y rhain ddylanwad cadarnhaol ar fywyd yr ysgol ac mae'n rhoi ymdeimlad addas o gyfrifoldeb i ddisgyblion. Er enghraifft, yn ddiweddar, fe wnaethant gyflwyno troli o offer iard chwarae sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad disgyblion amser egwyl ac amser cinio.

Mae cyfraddau presenoldeb wedi gosod yr ysgol yn y 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg dros y pedair blynedd diwethaf.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

## Profiadau dysgu: Digonol

Mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu addas sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddiannus ac yn cwmpasu gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mewn ychydig o achosion, mae'r gweithgareddau hyn yn ennyn diddordeb bron pob dysgwr yn dda, fel pan fydd disgyblion ym Mlwyddyn 4 yn creu eu llosgfynyddoedd model eu hunain fel rhan o'u gwaith gwyddoniaeth. Fodd bynnag, nid yw profiadau dysgu ym mhob dosbarth yn adeiladu'n ddigon da bob amser ar ddatblygiad medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth flaenorol disgyblion. Mae hyn yn cyfyngu ar y cynnydd mae disgyblion yn ei wneud dros gyfnod. Cynigir ystod eang o glybiau allgyrsiol gan yr ysgol sy'n cyfoethogi profiad disgyblion o'r ysgol yn dda.

Mae'r cynllunio i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion mewn gwersi llythrennedd a mathemateg dynodedig yn gadarn. Mae dull gweithredu'r ysgol sy'n seiliedig ar destunau yn cynnig ychydig o gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu'r medrau hyn ymhellach. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn defnyddio'u gwybodaeth am ganrannau i gyfrifo cost newidiol eitemau o'r Ail Ryfel Byd hyd at heddiw. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd ymhellach drwy eu cymhwyso mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Yn benodol, nid yw athrawon yn cynllunio gweithgareddau yn ddigon mynych sy'n galluogi disgyblion i weithio'n annibynnol er mwyn mireinio'u medrau. Mae hyn yn cyfyngu ar ddatblygu eu medrau meddwl.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu'u medrau TGCh.

Mae athrawon yn dilyn cynllun systematig sy'n datblygu medrau Cymraeg disgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae sesiynau rheolaidd 'helpwr heddiw' yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau yn cefnogi hyn yn dda. Yn gyffredinol, mae athrawon yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o nodweddion, hanes a diwylliant Cymru. Er enghraifft, mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn gweithio gydag arlunydd lleol i greu brasluniau o'r tirlun.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd addas i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd byw'n gynaliadwy a'u hymwybyddiaeth ohonyn nhw eu hunain fel dinasyddion byd-eang. Er enghraifft, mae disgyblion yn dylunio addurniadau Nadolig sy'n cynnwys negeseuon cyfeillgarwch y maent yn eu cyfnewid gydag ysgolion yn Ewrop.

## Addysgu: Digonol

Mae'r holl athrawon yn sefydlu perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda disgyblion. Mewn llawer o ddosbarthiadau, mae gan athrawon wybodaeth bynciol dda a disgwyliadau uchel o ymddygiad disgyblion. Maent yn gosod amcanion gwersi clir ac yn rhannu meini prawf llwyddo gyda disgyblion yn effeithiol. Mewn ychydig o achosion, mae athrawon yn darparu meini prawf llwyddo i ddisgyblion sy'n benodol i'w hanghenion ac yn eu helpu i wneud cynnydd da yn eu dysgu. Mewn gormod o ddosbarthiadau, fodd bynnag, nid yw nodau gwersi yn ddigon clir ac nid ydynt yn darparu digon o arweiniad neu her i ddisgyblion.

Mae llawer o athrawon yn defnyddio ystod addas o ddulliau a gweithgareddau i ddatblygu medrau disgyblion. Yn y Cyfnod Sylfaen, er enghraifft, mae athrawon yn trefnu darpariaeth uwch a pharhaus yn dda i alluogi disgyblion i gyfranogi mewn amrywiaeth o weithgareddau er mwyn gwella eu medrau. Yn aml, fodd bynnag, mae gormod o bwyslais ar weithgareddau strwythuredig a dim digon o ddefnydd o'r amgylchedd dysgu awyr agored. Ar draws yr ysgol, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu fel dysgwyr annibynnol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi adborth llafar gwerthfawr i ddisgyblion yn ystod gwersi. Mae adborth ysgrifenedig yn cydnabod ymdrechion disgyblion, ond nid yw bob amser yn dynodi'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion. Megis dechrau cael eu datblygu y mae cyfleoedd i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain.

Mae'r ysgol yn defnyddio system olrhain electronig i gofnodi'r cynnydd a wneir gan ddisgyblion. Caiff y wybodaeth hon ei diweddaru'n rheolaidd gan athrawon. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i gynllunio'r camau nesaf ar gyfer dysgwyr nac i adolygu effeithiolrwydd eu hymagweddau at addysgu a dysgu. Nid yw asesiadau athrawon o'r lefelau a gyflawnir gan ddisgyblion yn gywir yn gyson.

Ceir cyfleoedd rheolaidd i rieni drafod cynnydd a lles eu plant gydag athrawon. Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn glir a llawn gwybodaeth.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu iechyd a lles disgyblion yn agwedd gadarnhaol ar waith yr ysgol. Mae'n darparu cyfleoedd da i ddatblygu addysg ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Er enghraifft, mae gwasanaethau yn annog disgyblion i fyfyrio ar sut i fod yn ffrind da, ac mae ymweliadau ag eglwysi lleol yn helpu datblygu'u hymwybyddiaeth ysbrydol. Gwna'r ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Er enghraifft, mae dŵr ar gael i'r rhan fwyaf o ddisgyblion mewn dosbarthiadau, ac mae'r grŵp arweinyddiaeth disgyblion yn trefnu i werthu ffrwythau amser egwyl. Ceir cyfleoedd a chyfleusterau da i ddisgyblion chwarae ac i wneud ymarfer corff rheolaidd yn ystod y diwrnod ysgol ac mewn chwaraeon allgyrsiol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod eang o asiantaethau allanol i sicrhau bod disgyblion yn derbyn yr help, y gefnogaeth a'r arweiniad perthnasol sydd eu hangen arnynt. Er enghraifft, ceir cysylltiadau da gyda seicolegwyr addysgol, gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau lleferydd ac iaith. Mae'r rhain yn cyfrannu'n effeithiol at fynd i'r afael ag anghenion disgyblion unigol. Mae systemau priodol gan yr ysgol ar waith i fonitro presenoldeb disgyblion ac mae'n mynd ar drywydd unrhyw faterion drwy weithio'n agos gyda swyddogion lles yr awdurdod lleol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles ar gyfer disgyblion â heriau dysgu penodol. Mae'r ysgol yn cynnig ystod helaeth o raglenni ymyrraeth i gefnogi grwpiau a disgyblion unigol. Er enghraifft, mae'r gweithiwr cymorth bugeiliol yn cyflwyno sesiynau ar lythrennedd emosiynol i ddisgyblion agored i niwed sy'n gwella'u hunanhyder a'u medrau cymdeithasol. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn adolygu effaith ymyriadau yn systematig i sicrhau eu bod yn effeithiol o ran gwella deilliannau ar gyfer disgyblion. Mae athrawon yn gweithio'n dda gyda rhieni a gofalwyr i fonitro

ac adolygu cynlluniau addysg unigol disgyblion. Mae'r ddau ddosbarth darpariaeth adnoddau yn darparu cymorth arbenigol cadarn i ddisgyblion sydd ag anawsterau lleferydd ac iaith.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd cynhwysol a chroesawgar lle mae'r holl ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel a gwerthfawr. Mae'r ysgol yn cydnabod ac yn dathlu amrywiaeth ei chymuned a'r byd ehangach yn dda, er enghraifft trwy wasanaethau, arddangosiadau a gweithgareddau cwricwlaidd. Mae'n arbennig o effeithiol o ran herio homoffobia a hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o grwpiau teulu gwahanol drwy ei gwaith gydag elusen ymgyrchu. Caiff pob disgybl elwa ar holl feysydd y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn cynnwys adeiladau ar wahân ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Mae'r adeiladau o safon dda gan mwyaf, ac yn darparu amgylchedd dysgu ysgafn a deniadol i ddisgyblion. Mae'r ysgol wedi'i lleoli ar safle helaeth sy'n darparu cyfleoedd da i ymestyn a chefnogi dysgu'r disgyblion. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn manteisio ar y cyfleoedd hyn gystal ag y gallent er budd disgyblion. Ceir digon o adnoddau yn yr ysgol i ddiwallu anghenion dysgu disgyblion, gan gynnwys buddsoddiad diweddar mewn offer TGCh ychwanegol sydd wedi gwella medrau TGCh disgyblion yn dda.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gweledigaeth glir gan y pennaeth sydd newydd ei phenodi sy'n canolbwyntio'n glir ar godi safonau a gwella lles yr holl ddisgyblion. Mewn cyfnod byr, mae wedi nodi'r meysydd y mae angen eu gwella yn gywir ac wedi rhannu ei chynlluniau ar gyfer gwella gyda'r corff llywodraethol ac uwch arweinwyr. Ceir arwyddion cynnar cadarnhaol fod hyn yn helpu i wella bywyd a gwaith yr ysgol. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur effaith ei harweinyddiaeth ar ddeilliannau disgyblion nac ansawdd darpariaeth dros gyfnod.

Mae llawer o newidiadau wedi digwydd yn strwythur staffio'r ysgol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae hyn wedi achosi cryn darfu ac wedi cyfyngu ar ddatblygiad cyffredinol yr ysgol. O ganlyniad, nid yw cyfrifoldebau arwain wedi'u dosbarthu'n briodol ac ychydig iawn o aelodau staff sydd â disgrifiadau swydd diweddar sy'n cyfateb i'w rolau yn yr ysgol. Dros gyfnod, mae cyfarfodydd rheolaidd y staff a'r uwch dîm arwain wedi tueddu canolbwyntio gormod ar faterion trefniadol. Mae hyn wedi helpu'r ysgol i redeg yn esmwyth o ddydd i ddydd, ond mae wedi cyfyngu'r ffocws ar fynd i'r afael â blaenoriaethau strategol a chynllunio gwelliant. Mae'r pennaeth yn dechrau rhoi ffocws newydd i flaenoriaethau uwch arweinwyr drwy sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth gliriach o'u rolau a'u cyfrifoldebau wrth bennu cyfeiriad strategol yr ysgol.

Mae'r broses rheoli perfformiad ar gyfer pob aelod o staff wedi'i sefydlu'n dda a'i threfnu'n briodol. Mae targedau'n cyd-fynd yn fanwl â blaenoriaethau yng nghynllun gwella'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw prosesau presennol yr ysgol ar gyfer monitro ansawdd yr addysgu a'i effaith ar ddysgu disgyblion yn ddigon cadarn. O ganlyniad, nid yw arweinwyr yn herio staff yn rheolaidd i wella'u perfformiad nac yn eu cynorthwyo i godi safonau cyflawniad disgyblion.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol o'r ysgol ac yn adnabod eu cymuned leol yn dda. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o ba mor dda mae'r ysgol yn perfformio o gymharu ag ysgolion tebyg. Fodd bynnag, megis dechrau cael ei datblygu y mae eu rôl fel ffrindiau beirniadol.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Mae amserlen sefydledig o weithgareddau i adolygu a diweddaru adrannau o'r adroddiad hunanarfarnu. Mae'r holl staff addysgu yn dadansoddi data asesiadau athrawon yn addas, ac yn cynhyrchu adroddiad manwl ar gyrhaeddiad disgyblion ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol. Fodd bynnag, nid yw asesiadau athrawon o lefelau cyrhaeddiad disgyblion yn gywir yn gyson, ac nid yw arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth yn ddigon da i sicrhau gwelliannau mewn deilliannau disgyblion.

Ceir diffyg trylwyrdeb yn y prosesau ar gyfer arfarnu ansawdd yr addysgu a'r dysgu drwy graffu ar lyfrau ac arsylwadau o wersi. O ganlyniad, nid oes ystod ddigonol o wybodaeth uniongyrchol, ddibynadwy gan arweinwyr i nodi cryfderau a gwendidau yn y meysydd hyn. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen gryno, ond mae'n canolbwyntio gormod ar ddisgrifio yn hytrach nag arfarnu effaith camau gweithredu'r ysgol ar ddeilliannau disgyblion. O ganlyniad, nid yw'r broses hunanarfarnu yn effeithiol o ran gyrru'r ysgol yn ei blaen.

Mae diffyg strwythur cydlynus i gynllun gwella'r ysgol, ac mae ei gysylltiad â hunanarfarnu yn aneglur. Ceir nifer hylaw o flaenoriaethau sydd wedi'u gosod o fewn graddfa amser realistig, ond nid yw arweinwyr yn mynd ati'n gyson i gydweddu blaenoriaethau yn ddigon cywir â materion sy'n codi o'r hunanarfarnu. Mae'r cynllun yn dyrannu cyllid yn briodol i gamau gweithredu sydd wedi'u cynllunio, ac mae'r camau gweithredu yn cyfateb yn fras i flaenoriaethau'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r cynlluniau'n cynnwys deilliannau clir y gall arweinwyr fesur llwyddiant yn eu herbyn o ran safonau cyflawniad gwell ar gyfer disgyblion.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd araf o ran bodloni'r mwyafrif o argymhellion yr arolygiad blaenorol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae ystod dda o bartneriaethau sy'n cael effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgu a lles disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o rieni yn gefnogol i'r ysgol ac yn codi symiau sylweddol o arian yn flynyddol i wella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion. Mae gweithgaredd codi arian diweddar wedi galluogi'r ysgol i brynu mwy o offer cyfrifiadurol sy'n cefnogi datblygu medrau TGCh disgyblion yn effeithiol. Mae'r ysgol yn meithrin cysylltiadau da gyda'r gymuned sy'n gwneud cyfraniadau gwerthfawr at fywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae staff yn trefnu sesiynau i deidiau a neiniau ymuno â disgyblion am ginio cyn eu helpu i drin gardd yr ysgol. Mae cyfleoedd i rannu arfer dda ymhlith y teulu o ysgolion lleol yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar wella'r ddarpariaeth ac ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

Ceir cysylltiadau gwerthfawr gydag ystod dda o asiantaethau arbenigol allanol, sy'n cefnogi disgyblion agored i niwed a'u teuluoedd yn dda.

Mae'r cysylltiadau cryf â'r cylchoedd chwarae lleol yn helpu'r disgyblion iau i ymgartrefu'n hapus yn y dosbarth meithrin. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda'i hysgol uwchradd leol ac mae gweithgareddau pontio sydd wedi'u cynllunio'n ofalus yn paratoi disgyblion Blwyddyn 6 yn dda ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg.

Mae trefniadau ar gyfer cymedroli gwaith disgyblion o fewn y clwstwr o ysgolion yn effeithiol o ran cynhyrchu portffolios gwaith yn y pynciau craidd. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r rhain bob amser i sicrhau cywirdeb asesiadau athrawon o lefelau cyrhaeddiad gwaith disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae digon o staff tra chymwys gan yr ysgol, ac maent yn meddu ar ystod dda o arbenigedd a gwybodaeth arbenigol i gyflwyno'r cwricwlwm. Mae'r cynorthwywyr addysgu yn cynorthwyo dysgu grwpiau bach o ddisgyblion yn briodol. Mae arweinwyr yn defnyddio'r rhan fwyaf o staff yn addas, ond nid ydynt bob amser yn gwneud y defnydd gorau o dalentau penodol staff i gyfoethogi profiadau dysgu disgyblion.

Ceir trefniadau addas ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon. Mae'r ysgol yn talu sylw dyledus i anghenion datblygiad proffesiynol yr holl staff ac yn sicrhau eu bod yn cael ystod addas o gyfleoedd hyfforddi perthnasol. Mae'r rhain yn cyfrannu'n dda at wella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion. Mae gwarged mawr yng nghyllideb yr ysgol sydd wedi cronni dros y blynyddoedd diwethaf, ac ychydig o gofnodion sydd yn yr ysgol yn ymwneud â rheolaeth a rheolaethau ariannol blaenorol. Mae'r pennaeth newydd a'r corff llywodraethol wrthi'n cytuno ar gynllun gwario i unioni'r sefyllfa.

Gwneir defnydd priodol gan yr ysgol o'i grant amddifadedd disgyblion. Mae gwariant cynlluniedig yn cynnwys darpariaeth i godi safonau cyrhaeddiad ac i sicrhau lles disgyblion difreintiedig.

O ystyried y safonau digonol a gyflawnir gan ddisgyblion ac ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth, mae'r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6652276 - Ysgol Gynradd Parc Acton**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 462 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 12.6 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 64 | 60 | 65 | 63 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 85.9 | 80.0 | 87.7 | 85.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 64 | 60 | 65 | 63 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 87.5 | 83.3 | 89.2 | 88.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 18.8 | 23.3 | 26.2 | 39.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 64 | 60 | 65 | 63 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 85.9 | 83.3 | 89.2 | 87.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 23.4 | 25.0 | 35.4 | 44.4 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 2 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 64 | 60 | 65 | 63 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 98.4 | 96.7 | 92.3 | 95.2 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 39.1 | 31.7 | 43.1 | 57.1 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 3 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6652276 - Ysgol Gynradd Parc Acton**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 462 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 12.6 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 54 | 60 | 64 | 52 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 90.7 | 86.7 | 87.5 | 86.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 4 | 4 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 54 | 60 | 64 | 52 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 90.7 | 86.7 | 89.1 | 90.4 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 25.9 | 33.3 | 39.1 | 36.5 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 54 | 60 | 64 | 52 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 98.1 | 90.0 | 90.6 | 88.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 16.7 | 33.3 | 39.1 | 28.8 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 54 | 60 | 64 | 52 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 96.3 | 88.3 | 92.2 | 94.2 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 14.8 | 36.7 | 37.5 | 32.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 101 | 98 | 3 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 97% | 3% | |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 100 | 92 | 8 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 101 | 94 | 7 | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 93% | 7% | |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 99 | 95 | 4 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 96% | 4% | |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 99 | 92 | 7 | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 93% | 7% | |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 101 | 93 | 8 | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 92% | 8% | |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 100 | 98 | 2 | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 98% | 2% | |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 101 | 99 | 2 | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 101 | 87 | 14 | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 86% | 14% | |
| | | 90% | 10% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 99 | 89 | 10 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 90% | 10% | |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 93 | 38 | 55 | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 41% | 59% | |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 98 | 71 | 27 | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 72% | 28% | |
| | | 84% | 16% | |

## Ymatebion i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 55 | 31 | 21 | 2 | 1 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 56% | 38% | 4% | 2% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 55 | 38 | 16 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 69% | 29% | 2% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 55 | 36 | 18 | 0 | 0 | 1 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 65% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 55 | 29 | 23 | 2 | 1 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 53% | 42% | 4% | 2% | | |
| | | 61% | 35% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 55 | 15 | 28 | 2 | 1 | 9 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 27% | 51% | 4% | 2% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 55 | 26 | 26 | 0 | 1 | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 47% | 47% | 0% | 2% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 55 | 33 | 20 | 0 | 1 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 60% | 36% | 0% | 2% | | |
| | | 64% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 55 | 19 | 25 | 4 | 1 | 6 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 35% | 45% | 7% | 2% | | |
| | | 49% | 43% | 7% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 55 | 23 | 26 | 1 | 1 | 4 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 42% | 47% | 2% | 2% | | |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 55 | 26 | 26 | 2 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 47% | 47% | 4% | 0% | | |
| | | 59% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 55 | 28 | 27 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 51% | 49% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 53 | 22 | 22 | 4 | 1 | 4 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 42% | 42% | 8% | 2% | | |
| | | 55% | 39% | 5% | 2% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 55 | 24 | 24 | 6 | 0 | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 44% | 44% | 11% | 0% | | |
| | | 48% | 41% | 9% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 55 | 32 | 19 | 3 | 1 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 58% | 35% | 5% | 2% | | |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 55 | 18 | 21 | 4 | 2 | 10 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 33% | 38% | 7% | 4% | | |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 55 | 29 | 24 | 0 | 0 | 2 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 53% | 44% | 0% | 0% | | |
| | | 57% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 55 | 15 | 24 | 1 | 2 | 13 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 27% | 44% | 2% | 4% | | |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 55 | 21 | 31 | 2 | 0 | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 38% | 56% | 4% | 0% | | |
| | | 53% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 55 | 25 | 25 | 1 | 0 | 4 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 45% | 45% | 2% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Jonathan Wright | Arolygydd Cofnodol |
| Alison Botarelli | Arolygydd Tîm |
| Rhian Jones | Arolygydd Tîm |
| Peter Haworth | Arolygydd Lleyg |
| Sharon Davies | Arolygydd Cymheiriaid |
| Joanna Grundy (Pennaeth) | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6)

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.